Fforwm y Sir
Rhaglen

Dyddiad:	Dydd Mawrth 23 Hydref 2018
Amser:	6.00pm – 8.00pm
Lleoliad:	Cyngor Sir y Fflint, Ystafell Alun a Glannau Dyfrdwy, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint
Yn cynnal :	Cyngor Sir y Fflint
Cadeirydd:	Aaron Shotton, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf- Mehefin 2018:

I ddilyn.

1. Materion y Cyngor

1A. Cyflwyniad Adolygiad Etholiadau – Tom Jenkins, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (1 awr)

Pwrpas:

(1) Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwybodol o'r adolygiad sydd i ddod ar gyfer y trefniadau etholiadol.
(2) Egluro sut bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal a sut y gellir cyflwyno sylwadau, a;
(3) Darparu cyfle i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

Cefndir:

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal adolygiad o'r 22 Awdurdod Lleol a ddechreuodd ym mis Ionawr 2017. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei 'argymhellion terfynol' i Lywodraeth Cymru cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Electoral Reviews Policy and Practice D

Nid oes unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhaglen gan Gynghorau Tref a Chymuned ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod hwn.

1B. Cyflwyniad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Shan Morris, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (cyflwyniad 20 munud, Sesiwn Holi ac Ateb 10 Munud)

Pwrpas:

(1) Darparu trosolwg i Gynghorau Tref a Chymuned o Strategaeth NWFRA a sefyllfa'r gyllideb.

1C. Diweddariadau'r Sir – Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint (15 munud)

Pwrpas:

(1) Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorau Tref a Chymuned am:

- Ddiwygio Llywodraeth Leol – Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru: Dogfen Canfyddiadau ac Argymhellion ynghlwm.
- Sefyllfaoedd Cyllidebau Cenedlaethol a Llywodraeth Leol
- Diweddariadau cyffredinol

Independent Review Panel - Emer

1D. Y wybodaeth ddiweddaraf am TAN 1 a'r CDLl - Andy Roberts, Cyngor Sir y Fflint (15 munud)

Pwrpas:

(1) Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorau Tref a Chymuned o ran y sefyllfa bresennol gyda TAN 1 a chynnydd y CDLl.

Cefndir:

Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN1) yw canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r angen i gynnal y cyflenwad o dir ar gyfer adeiladu tai. Pan nad oes gan awdurdod isafswm o 5 mlynedd o dir ar gyfer tai a /neu nad oes ganddynt gynllun datblygu wedi'i fabwysiadu, roedd TAN1 yn ei gwneud yn ofynnol bod 'cryn bwysau' yn cael ei roi i geisiadau ar gyfer datblygiad tai hapfasnachol. Mae'r sefyllfa wedi newid yn ddiweddar gan fod Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi 'datgymhwyso'r rhan perthnasol o'r polisi, i gydnabod effaith datblygiad hapfasnachol ar gymunedau a'r system sy'n dilyn y cynllun yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at ddau beth - mae'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu ar faint o bwysau i roi ar ddiffyg cyflenwad tir yn y gytbwysedd cynllunio, ac yn ail mae'n caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud cynnydd gyda'r CDLl.

Nid oes unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhaglen gan Gynghorau Tref a Chymuned ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. Cyfarfodydd yn y Dyfodol

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Chwefror 2019
Amser: 6.30pm - 8.30pm

Dyddiad: Nos Fawrth 25 Mehefin 2019
Amser: 6.30pm - 8.30pm

Dyddiad: Nos Lun 7 Hydref 2019
Amser: 6.30pm - 8.30pm

Eitemau'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol:

- **Cyflwyniad / Arddangosiad DEWIS Cymru–** Darparu trosolwg o beth yw DEWIS Cymru a dangos y wefan a'i werth fel adnodd ar gyfer gwella iechyd a lles **(Helen Jones / Kate Howard)**

- **Y wybodaeth ddiweddaraf am Wydnwch Cymunedol –** Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â'r gwaith yn ymwneud â gwydnwch cymunedol (**Neil Ayling, Prif Swyddog: Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint**

Nid oes unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhaglen gan Gynghorau Tref a Chymuned ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod hwn.